



Fersiwn 2
Mae cadarnhad yn y fersiwn hwn
na fydd rhagor o asesiadau mis Ionawr.


TAG

Arholiadau 2009 ymlaen

Dyfarniad UG Cyntaf: Haf 2009

Dyfarniad Safon Uwch Cyntaf: Haf 2010

Sbaeneg



Cynnwys

TAG Uwch Gyfrannol Sbaeneg CBAC TAG Safon Uwch Sbaeneg CBAC

Dyfarniad UG Cyntaf - Haf 2009
Dyfarniad Safon Uwch Cyntaf - Haf 2010



	Tudalen
Codau Cofrestru a Darpariaeth yr Unedau	2
Crynodeb o'r Asesiad	3
Rhagarweiniad	5
Nodau	8
Amcanion Asesu	9
Cynnwys y Fanyleb	10
Cynllun Asesu	16
Sgiliau Allweddol	19
Disgrifiadau Perfformiad	20
Atodiadau	25

TAG Sbaeneg

Codau Cofrestru Pwnc/Opsiwn		Cyfrwng cymraeg	Cyfrwng Saesneg
<i>Cofrestriad "Cyfnewid" Uwch Gyfrannol (UG)</i>	2361	W1	01
<i>Cofrestriad "Cyfnewid" Safon Uwch (U)</i>	3361	W1	01
SN1: Llafar Sbaeneg			
(a) (wedi'i gynnal gan arholwr ymweld)	1361	W1	01
(b) (wedi'i gynnal gan y ganolfan a'i anfon at yr arholwr)	1361	W2	02
SN2: Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu Sbaeneg	1362	W1	01
SN3: Llafar Sbaeneg	1363	W1	01
SN4: Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu Sbaeneg	1364	W1	01

Wrth gofrestru, dylid rhoi '0' o flaen y codau uchod ar gyfer cofrestriadau cyfrwng Saesneg ac 'W' ar gyfer cofrestriadau cyfrwng Cymraeg.

Darpariaeth yr Unedau Asesu			
Uned	Ionawr 2009	Mehfin 2009	Mehfin 2010 a phob blwyddyn wedi hynny
SN1		✓	✓
SN2		✓	✓
SN3			✓
SN4			✓

Rhifau Achredu'r Cymhwyster

Uwch Gyfrannol: 500/2779/7
Uwch: 500/2488/7

CRYNODEB O'R ASESIAD

Rhennir y fanyleb hon yn gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mynegir y pwysïadau a welir isod yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (2 uned)

SN1	20%	12-15 munud	60 marc crai; 80 marc GMU
Llafar Trafodaeth ar bynciau wedi ei harwain gan arholwr Sgwrs gyffredinol			
SN2	30%	2½ awr	98 marc crai; 120 marc GMU
Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu Gwrando ac Ymateb Darllen ac Ymateb Tasgau gramadeg Cyfieithu Iaith Darged - Cymraeg Traethawd			

Safon Uwch (yr uchod a 2 uned bellach)

SN3	20%	15-20 munud	60 marc crai; 80 marc GMU
Llafar Trafodaeth Strwythuredig Cyflwyniad			
SN4	30%	3 awr	98 marc crai; 120 marc GMU
Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu Gwrando ac Ymateb Darllen ac Ymateb Cyfieithu Iaith Darged - Cymraeg Traethawd Astudiaethau Cyfeiriedig			

SBAENEG

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Meini Prawf ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch

Mae'r fanyleb hon yn cwrdd â gofynion y meini prawf cyffredinol ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol (UG) ac Uwch (U) a'r meini prawf pwnc ar gyfer TAG Sbaeneg a gyhoeddwyd gan y rheolyddion [Medi 2006]. Bydd y cymwysterau'n cydymffurfio â gofynion graddio, dyfarnu ac ardystio'r Cod Ymarfer ar gyfer cymwysterau 'cyffredinol' (gan gynnwys TAG).

Adroddir y cymwysterau UG ar raddfa pum gradd – A, B, C, D ac E. Adroddir y cymwysterau Uwch ar raddfa chwe gradd – A*, A, B, C, D, E. Bydd dyfarniad A* ar safon Uwch yn cydnabod galwadau ychwanegol a gyflwynir gan yr unedau U2 o ran gofynion 'ymestyn a herio' a 'synoptig'. Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf posib ar gyfer gradd E fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif. Lefel cyrhaeddiad yr arholiad Uwch Gyfrannol yw'r hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr a fydd wedi cwblhau hanner cyntaf y cwrs Safon Uwch llawn.

Bydd gan yr unedau asesu UG yr un pwysiad marciau ag ail hanner y cymhwyster (U2) pan fyddant yn cael eu hagregu i gynhyrchu'r dyfarniad Uwch. Mae'r UG yn cynnwys dwy uned asesu, sef SN1 a SN2. Dwy uned sydd i'r cwrs U2 hefyd, sef SN3 a SN4.

Gellir ailsefyll yr unedau asesu cyn yr ardystio ar gyfer y cymwysterau UG neu U, ac yn yr achosion hynny, y canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes canlyniadau asesu unigol, cyn eu defnyddio ar gyfer ardystio cymhwyster, yn dibynnu ar oes y fanyleb ei hun, a dim arall.

Mae'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Dysgu blaenorol

Nid oes gofyniad penodol ar gyfer dysgu blaenorol, er y byddai llawer o ymgeiswyr eisoes wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ac wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau iaith, trwy astudio Sbaeneg ar gyfer TGAU.

- Gall pob ymgeisydd, beth bynnag fo eu rhyw neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol, ddilyn y fanyleb hon.
- Nid yw'r fanyleb hon yn oed-benodol a gellir ei dilyn gan ymgeiswyr o unrhyw oed.
- Bydd y fanyleb hon yn rhoi sail gadarn i'r myfyrwyr ar gyfer dysgu gydol oes yn y dyfodol.

1.3 Dilyniant

Mae strwythur pedair rhan y fanyleb hon (2 uned ar gyfer UG, a 2 uned ychwanegol ar gyfer y safon Uwch llawn) yn caniatáu asesu mewn camau ac ar ddiwedd y cwrs ac felly'n caniatáu i ymgeiswyr ohirio penderfyniadau ynglŷn â symud ymlaen o'r cymhwyster UG i'r cymhwyster safon Uwch llawn.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Sbaeneg neu faes perthynol, trwy gyfrwng amrediad o gyrsiau addysg uwch; ar gyfer symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol; neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae'r fanyleb hon hefyd yn darparu cwrs astudiaeth cydlynol, boddhaol a gwerthfawr ar gyfer ymgeiswyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

1.4 Rhesymeg

Un o nodau'r UG yw rhoi cyfle i fyfyrwyr safon Uwch ehangu eu hastudiaethau trwy ohirio penderfyniad i arbenigo. Y bwriad yw rhoi cyfle i bob ymgeisydd gynnal ehangder eu hastudiaethau, tra hefyd yn darparu llinell sail hunangynhaliol a digon trwyadl i ymgeiswyr sydd am barhau i ddilyn cwrs safon Uwch llawn.

Mae'r arholiad UG wedi ei lunio i fod yn asesiad priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddisgwylir gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau rhan gyntaf y cwrs safon uwch llawn.

Mae'r cwrs safon Uwch llawn yn cynnwys UG fel rhan un ac U2 fel rhan dau. Mae'r arholiad U2 wedi ei lunio i fod yn asesiad priodol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ffurfio U2.

Rhoddir cyfleoedd hefyd i ymgeiswyr ddatblygu eu Sgiliau Allweddol.

1.5 Y Cwricwlwm Ehangach

Bydd y fanyleb Sbaeneg yn naturiol yn cyfoethogi ymwybyddiaeth Ewropeaidd ymgeiswyr. Yn yr un modd bydd cyfleoedd yn codi i archwilio dimensiynau ysbrydol, moesol, moesegol a diwylliannol testunau a astudir ac i gyfrannu at addysg amgylchedd ymgeiswyr gan gynnwys datblygiad cynaliadwy. Caiff ystyriaethau iechyd a diogelwch hefyd eu codi trwy'r meysydd pwnc.

1.6 Cyfuniadau a waherddir a gorgyffwrdd â chymwysterau eraill

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TAG gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 5750.

Nid oes unrhyw orgyffwrdd sylweddol rhwng y fanyleb hon ac unrhyw un arall. Ni waherddir unrhyw gyfuniad.

1.7 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Yn aml yn yr UG/Safon Uwch, bydd gofyn asesu amrediad eang o gymwyseddau. Gwneir hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol a'u bod, felly, yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiol yrfaeodd a chyrisiau ar lefel uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc UG/Safon Uwch er mwyn ystyried a fyddai unrhyw un o'r cymwyseddau oedd eu hangen yn y pwnc yn eithrio ymgeiswyr anabl rhag sefyll y pwnc hwnnw. Mewn achosion o'r fath, adolygwyd y sefyllfa eto i wneud yn siŵr nad oedd cymwyseddau o'r fath ond yn cael eu cynnwys pan oedd hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau'r anabl a phobl anabl eu hunain.

Mewn TAG *Sbaeneg* mae gofyn asesu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr nad yw agweddau ar yr asesiad o fewn eu cyrraedd, lle nad oes modd gwneud addasiadau rhesymol, fel a ganlyn:

- Siarad – rhai ymgeiswyr â nam ar y lleferydd
- Gwrando – rhai ymgeiswyr â nam ar y clyw nad ydynt yn gallu darllen gwefusau
- Darllen – rhai ymgeiswyr â nam ar y golwg nad ydynt yn gallu darllen Braille

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. O'r herwydd, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu hatal yn llwyr rhag sefyll unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth ar addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, *Rheoliadau ac Arweiniad Yn Ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n Gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau*. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk) ac yn Saesneg ar wefan y CGC (www.icq.org.uk).

Mae'n bosibl y ceir ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, ond y bydd modd iddynt dderbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd wedi'i seilio ar y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a nodir ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Cedwir hyn dan ystyriaeth ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

2

NODAU

- 2.1 Mae'r fanyleb hon ar gyfer Sbaeneg UG a safon Uwch wedi'i llunio i annog myfyrwyr i:
- datblygu diddordeb mewn dysgu iaith a brwdfrydedd amdano
 - datblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau a *genres*
 - cyfathrebu'n hyderus, yn glir ac yn effeithiol yn yr iaith i amrywiol bwrpasau
 - datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gymdeithas gyfoes, cefndir diwylliannol a threftadaeth gwledydd neu gymunedau lle y siaredir yr iaith
 - ystyried eu hastudiaeth o'r iaith mewn cyd-destun ehangach.
- 2.2 Mae'r fanyleb hon wedi'i llunio i annog myfyrwyr i:
- fwynhau ac elwa o ddysgu iaith
 - caffael gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer defnydd ymarferol, astudiaeth bellach a/neu gyflogaeth
 - cyfathrebu â siaradwyr yr iaith
 - cymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang amlieithog.
- 2.3 Mae'r fanyleb hon hefyd wedi'i llunio i:
- rhoi cwrs astudio cydlynol, boddhaol a gwerthfawr i fyfyrwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach.
- 2.4 Yn ychwanegol, mae'r fanyleb safon Uwch wedi'i llunio i:
- rhoi sail ddigonol ar gyfer astudio ieithoedd ymhellach ar lefel gradd neu gyfatebol.

3

AMCANION ASESU

Rhaid i ymgeiswyr gwrdd â'r amcanion asesu canlynol yng nghyd-destun y cynnwys y manylir arno yn Adran 4 y fanyleb:

- AA1 deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith lafar;
- AA2 deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith ysgrifenedig;
- AA3 dangos gwybodaeth o'r gramadeg a'r cystrawennau a nodir yn y fanyleb hon a'u defnyddio'n gywir;

Pwysiadau

Caiff pwysiadau amcanion asesu eu dangos isod fel % o'r safon Uwch lawn, gyda phwysiadau UG mewn cromfachau.

Pwysiad yr Uned	%	AA1%	AA2%	AA3%
SN1	20	16.7 (33.3)		3.3 (6.6)
SN2	30	2.4 (4.9)	18.4 (36.7)	9.2 (18.4)
SN3	20	10	6.7	3.3
SN4	30	4.9	15.9	9.2
Cyfanswm	100	34	41	25

4 CYNNWYS Y FANYLEB

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr UG:

- gwrando ac ymateb i amrywiaeth o ffynonellau llafar, gan gynnwys ffynonellau dilys
- darllen ac ymateb i amrywiaeth o destunau ysgrifenedig, gan gynnwys ffynonellau dilys, yn ymwneud â gwahanol gyd-destunau, cyweiriau, arddulliau a genres
- addasu eu hiaith lafar ac ysgrifenedig yn briodol i wahanol sefyllfaoedd a dibenion
- defnyddio'r iaith yn gywir i fynegi ffeithiau a syniadau, a chyflwyno esboniadau, barn a gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig
- deall a defnyddio'r system ramadegol ac amrywiaeth o strwythurau yn ôl y manylion yn y fanyleb UG (Gw. Atodiad 1)
- trosglwyddo ystyr o iaith dramor i'r Gymraeg/Saesneg.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr safon Uwch:

- defnyddio'r iaith i gyflwyno safbwyntiau, datblygu dadleuon, dadansoddi a gwerthuso, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- deall a chymhwyso'r system ramadegol ac amrywiaeth o strwythurau yn ôl y manylion yn y fanyleb safon Uwch (Gweler Atodiad 1)
- astudio agweddau o'r gymdeithas gyfoes, cefndir diwylliannol a threftadaeth un neu ragor o'r gwledydd neu gymunedau yr astudir ei hiaith
- trosglwyddo ystyr o'r Gymraeg/Saesneg i'r iaith dramor.

4.1 Pynciau trafod

Caiff y pynciau canlynol eu hastudio gyda chyfeiriad at wledydd iaith darged yn ogystal â mewn cyd-destun ehangach, byd-eang fel y bo'n briodol.

UG

- (a) **Hamdden a Dulliau byw**, gan gynnwys teithio a thwristiaeth, chwaraeon, hobiau, adloniant, arferion, traddodiadau, byw'n iach – iechyd a maeth, diet ac ymarfer, byw afiach – cyffuriau, aids, ysmegu, alcohol ac ati
- (b) **Yr unigolyn a'r gymdeithas**, gan gynnwys perthnasoedd a chyfrifoldebau, materion rhyw, diwylliant pobl ifanc (gwerthoedd, grwpiau cyfoedion, ffasiwn a thueddiadau ac ati), addysg, hyfforddiant galwedigaethol a gyrfaoedd yn y dyfodol.

Safon Uwch

- (c) **Materion amgylcheddol** gan gynnwys llygredd technoleg, cynhesu byd-eang, cludiant, egni, egni niwclear, egni adnewyddol, cadwraeth, ail-gylchu, cynaliadwyedd.
- (ch) **Materion cymdeithasol a gwleidyddol**, gan gynnwys rôl y cyfryngau, hiliaeth, mewnfudo, eithrio a chymathu cymdeithasol, terfysgaeth, byd gwaith (cyflogaeth, masnach, globaleiddio, ac ati.),

DS: Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol na chaniateir geiriaduron yn unrhyw ran o'r arholiadau UG/U

Dyma fanylebau manwl yr arholiadau:

UG

UNED SN1 – Llafar 15 munud 60 marc

(1) Sgwrs wedi'i seilio ar bynciau trafod

Rhoddir 2 gerdyn i ymgeiswyr, A a B, un o bob un o'r meysydd pwnc UG. Bydd y cardiau'n cynnwys symbyliad geiriol neu weledol neu gymysgedd o'r ddau a rhai cwestiynau cychwynnol.

Caiff ymgeiswyr 15 munud o amser paratoi ac yn ystod y cyfnod hwn byddan nhw'n gallu gwneud nodiadau byr i'w cyflwyno i'r arholwr ar ddiwedd yr arholiad.

Arweinir y sgwrs gan yr arholwr. Dylai ymgeiswyr allu trefnu ffeithiau a syniadau, a chyflwyno esboniadau a gwybodaeth, gan ganolbwyntio'n briodol ar y pynciau a drafodir. (8 munud)

Yn ogystal â'r marciau a ddyfernir am gyfathrebu, dyfernir marciau i ymgeiswyr, yn nwy ran yr arholiad, am gywirdeb, ystod ac idiom ac ynganiad a thonyddiaeth.

Y nod yw rhoi i ymgeiswyr gyfle realistig i ddangos eu cymhwysedd mewn cyfathrebu llafar y tu allan i sefyllfa gyfarwydd y dosbarth. Anogir ymgeiswyr i gyflwyno eu safbwynt a all wrth-ddweud un yr arholwr. Caiff y prawf SN1 ei gynnal **naill ai** gan yr athro, ei recordio a'i farcio gan CBAC **neu** bydd arholwr yn ymweld â'r ganolfan i gynnal ac yn asesu'r prawf.

Bydd yr arholwyr sy'n ymweld yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â phob ymgeisydd mewn grŵp, cyn y profion unigol, er mwyn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Byddan nhw'n eu cyflwyno'u hunain, yn siarad ychydig mewn Sbaeneg er mwyn i ymgeiswyr ymgynefino â'u llais, yn siarad â nhw yn anffurfiol ac yn ateb unrhyw gwestiynau cychwynnol a allai godi.

Rhoddir cynlluniau marcio manwl yn y llyfryn 'Canllawiau i Athrawon'.

(2) Sgwrs gyffredinol

Sgwrs gyffredinol lle y disgwylir i ymgeiswyr drafod eu diddordebau personol, eu hastudiaethau ac unrhyw gynlluniau a/neu ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Wrth siarad amdanynt eu hunain, dylai ymgeiswyr allu trefnu ffeithiau a syniadau, a chyflwyno esboniadau a gwybodaeth. (7 munud)

UNED SN2 – Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu 2½ awr 98 marc

Rhoddir casetiau/CDau unigol i ymgeiswyr a byddant yn gwrando arnynt ar chwaraewyr casét/CD personol. O fewn yr amser a ganiateir ar gyfer y papur hwn, bydd rhyddid ganddynt i atal, ailddirwyn a gwrando ar y recordiad mor aml ag y dymunant.

Bydd y recordiadau wedi eu seilio ar ddeunydd dilys. Bydd yr eitemau o wahanol hyd, gan adlewyrchu ystod o sefyllfaoedd bob dydd ac yn cynnwys cyweiriau ffurfiol ac anffurfiol fel sgysiau byr, cyfweliadau ac adroddiadau. Fel yn achos unrhyw sefyllfa ddilys, ni thybir bod angen deall pob manylyn o'r testunau ar gyfer y rhan hon o'r arholiad er mwyn ei chwblhau'n llwyddiannus.

Bydd y tasgau a osodir yn gofyn am ymatebion geiriol a di-eiriau wedi eu hanelu at ganfod lefel dealltwriaeth ymgeiswyr o iaith lafar Sbaeneg, bob dydd, a'u lefel o gymhwysedd wrth ymateb yn Sbaeneg.

Bydd rhan Ddarllen yr arholiad wedi ei seilio ar eitemau o hyd amrywiol, wedi eu cymryd o bapurau newydd, cylchgronau a hysbysebion.

Bydd amrywiaeth o dasgau wedi'u seilio ar y darnau hyn yn gofyn am ymatebion geiriol a di-eiriau wedi'u hanelu at ganfod lefel dealltwriaeth ymgeiswyr o destunau Sbaeneg bob dydd a'u lefel o gymhwysedd wrth ymateb i'r testunau hyn mewn Sbaeneg ysgrifenedig.

Bydd yr arholiad hefyd yn cynnwys tasg lle y mae gofyn trosglwyddo ystyr o Sbaeneg Sbaeneg i Gymraeg/Saesneg.

Bydd y dasg Ysgrifennu yn un traethawd o ddewis o 4 a seilir ar y meysydd pwnc (2 y pwnc)

- C.1 Gwrando ac ymateb – 1 neu 2 eitem gyda thasgau deall (8 marc)
- C.2 Tasg gramadeg annibynnol a seilir ar yr eitemau gwrando (5 marc)
- C.3 Darllen ac ymateb – 2 neu 3 darn gyda thasgau deall (24 marc)
- C.4 Tasg gramadeg annibynnol a seilir ar y darnau darllen (10 marc)
- C.5 Tasg trosglwyddo ystyr o'r iaith darged i Gymraeg/Saesneg (16 marc)
- Q.6 Un traethawd yn Sbaeneg (200-250 gair). Caiff dau draethawd eu gosod ar bob un o'r ddau faes pwnc (a) a (b) (35 marc)

Safon Uwch

UNED SN3 – Llafar (20 munud) 60 marc

(1) Trafodaeth wedi'i strwythuro

Trafodaeth wedi'i strwythuro a seilir ar symbyliad byr ysgrifenedig (150-200 gair), wedi'i gysylltu ag un o'r pynciau.

Caiiff ymgeiswyr gyfnod paratoi (15-20 munud) ac yn ystod y cyfnod hwn gallan nhw wneud nodiadau cryno ar bapur (ni chaniateir geiriaduron). Ni chaniateir iddyn nhw ddarllen o sgript helaeth. Rhaid i'r holl nodiadau gael eu rhoi i'r arholwr ar ddiwedd yr arholiad.

Gofynnir rhai cwestiynau i'r ymgeiswyr ar y pwnc trafod ac yna ânt yn eu blaen i nodi eu safbwynt eu hunain ac i gyfnewid barn â'r arholwr yn ystod y drafodaeth sy'n dilyn. (6 munud)

(2) Cyflwyniad llafar

Bydd ymgeiswyr yn rhoi cyflwyniad llafar ar **un** o'r meysydd yn y dewis Astudiaethau Cyfeiriedig (*Guided Studies*) (gweler tudalen 14) h.y. **un** ffilm o'r opsiwn "Byd y Sinema" **neu un** llyfr o'r opsiwn "Byd Llenyddiaeth" **neu un ardal** o'r opsiwn "Rhanbarthau Sbaen". Gall ymgeiswyr ddewis seilio eu **cyflwyniad llafar** ar y rhestr osod o lyfrau, ffilmiau a rhanbarthau (gweler Atodiadau) **neu** ar lyfr, ffilm neu ranbarth o'u dewis (h.y. unrhyw ffilm Sbaeneg neu Sbaeneg-Americanaidd neu unrhyw waith llenyddol Sbaeneg neu Sbaeneg-Americanaidd neu o unrhyw ranbarth mewn gwlad lle caiff Sbaeneg ei siarad).

Caniateir i ymgeiswyr gyfeirio at nodiadau cryno sy'n cynnwys rhwng 5 a 10 pennawd neu is-bennawd yn ystod y cyflwyniad, ond ni ddylen nhw ddisgwyl cael darllen yn gyfangwbl o sgript gyfan. Dylid rhoi'r nodiadau i'r arholwr ar ddiwedd y prawf.

Bydd y cyflwyniad yn para am fwyafswm o 4 munud. Caiff hwn ei ddilyn gan drafodaeth (mwyafswm o 10 munud) gyda'r arholwr ar bwnc y cyflwyniad a materion cysylltiedig.

Caiff y profion eu cynnal gan arholwr fydd yn ymweld â'r ganolfan.

Bydd yr arholwyr sy'n ymweld yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â phob ymgeisydd mewn grŵp, cyn y profion unigol, er mwyn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Byddan nhw'n cyflwyno'u hunain, yn siarad ychydig mewn Sbaeneg er mwyn i ymgeiswyr ymgynefino â'u llais, yn siarad â nhw yn anffurfiol ac yn ateb unrhyw gwestiynau cychwynnol a allai godi.

Mewn canolfannau lle mae ymgeiswyr yn sefyll SN1 a SN3, dylai'r holl brofion SN1 fel arfer gael eu cymryd yn gyntaf ac yna dylai ymgeiswyr ddychwelyd yn ddiweddarach ar gyfer y profion SN3.

Ceir cynlluniau marcio llawn yn y llyfryn Canllawiau i Athrawon.

UNED SN4 – Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu (3 awr) 98 marc

Rhoddir casetiau/CDau unigol i ymgeiswyr a byddan nhw'n gwrando ar y rhain ar eu chwaraewyr casetiau/CD personol. O fewn yr amser a ganiateir am y papur hwn (3 awr), cânt ryddid i atal, ailddirwyn a gwrando ar y recordiad mor aml ag y dymunant.

Bydd y recordiadau wedi eu seilio ar ddeunydd dilys. Gall yr eitemau gynnwys sgwrs anffurfiol, eitemau newyddion a chyfweliadau, sgysiau neu drafodaethau o natur fwy ffurfiol.

Bydd yr asesiad wedi'i seilio ar dasgau deall yn Gymraeg/Saesneg i'w hateb yn Gymraeg/Saesneg.

Bydd rhan ddarllen ac ymateb yr arholiad wedi'i seilio ar destunau dilys a all fod ar ffurf naratif, cyfweliad, ac erthyglau gwybodaeth neu rhai'n cyflwyno dadl.

Gall cwestiynau fod yn benodol neu gallant ofyn am ddealltwriaeth fras a / neu grynhoi. Nod yr ymarferion yw canfod lefel dealltwriaeth yr ymgeiswyr o Sbaeneg ysgrifenedig.

Bydd ymarfer cyfieithu o tua 100 gair o'r Gymraeg/Saesneg i Sbaeneg.

Bydd traethawd o 400 gair wedi'i seilio ar un maes o'r opsiwn Astudiaethau Cyfeiriedig.

- C.1 Gwranddo ac ymateb – 1 neu 2 eitem gyda thasgau deall yn cael eu hateb yn Gymraeg/Saesneg (6 marc)
- C.2 Darllen ac ymateb – 1 neu 2 ddarn yn Sbaeneg yn ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd pwnc gyda thasgau deall a rhai y bydd rhai ohonynt yn cael eu hateb yn Gymraeg/Saesneg (22 marc)
- C.3 Cyfieithiad byr (tua 100 gair) o Gymraeg/Saesneg i Sbaeneg wedi'i seilio ar un o'r meysydd pwnc (25 marc)
- C.4 Un traethawd o'r opsiwn Astudiaethau Cyfeiriedig (mwyafswm 400 gair) a fydd ar lyfr, ffilm neu ranbarth **gwahanol** i'r un a gyflwynir yn y cyflwyniad llafar. (45 marc)

Y Dewis Astudiaethau Cyfeiriedig

Bydd rhan o'r cwrs astudio U2 yn cynnwys dewis **un neu ddau** o'r dewisiadau canlynol:

Naill ai:	A	Byd y Sinema
Neu:	B	Byd Llenyddiaeth
Neu:	C	Rhanbarthau Sbaen

Rhaid i ymgeiswyr wneud 2 astudiaeth:

Naill ai:	y ddau o'r un opsiwn (e.e. 2 lyfr; 2 ffilm; 2 ranbarth)
Neu:	un yr un o 2 opsiwn (e.e. 1 llyfr ac 1 ffilm neu 1 ffilm ac un ranbarth neu 1 llyfr ac 1 ranbarth)

Bydd y **traethawd** wedi'i seilio ar y rhestr osod o lyfrau, ffilmiau a rhanbarthau (gweler Atodiadau).

Gall ymgeiswyr ddewis seilio eu **cyflwyniad llafar** (Uned 3) ar y rhestr osod o lyfrau, ffilmiau a rhanbarthau (gweler Atodiadau) **neu** ar lyfr, ffilm neu ranbarth o'u dewis (h.y. unrhyw ffilm Sbaeneg neu Sbaeneg-Americanaid neu unrhyw waith llenyddol Sbaeneg neu Sbaeneg-Americanaid neu o unrhyw ranbarth mewn gwlad lle caiff Sbaeneg ei siarad).

Yn ystod eu hamser paratoi ar gyfer yr Astudiaethau Cyfeiriedig, disgwylir i ymgeiswyr astudio ac ymateb i ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, beth bynnag fo'r dewis a wneir, e.e. astudio deunyddiau ysgrifenedig am y ffilmiau; gwranddo ar eitemau newyddion am y rhanbarthau neu wyllo fersiynau ffilm o'r llyfrau.

A Byd y Sinema

Bydd ymgeiswyr yn astudio 1 neu 2 ffilm gan ddibynnu ar yr opsiwn o'u dewis. Bydd angen iddyn nhw ddelio â chwestiynau'n ymwneud â datblygiad a chynllun, perthnasoedd, personoliaethau'r prif gymeriadau, safbwyntiau a chredoau unigol, cymhelliad ar gyfer gweithredoedd personol ac ati, a dyfeisiau sinematograffig i'r graddau y maent yn ymwneud ag unrhyw un o'r agweddau hynny (llyw, ôl-fflachio, symud araf ac ati). **Ni** ddisgwylir fod ganddynt wybodaeth fanwl o dechnolegau sinematograffig, dulliau cynhyrchu ac ati.

B Byd Llenyddiaeth

Bydd ymgeiswyr yn astudio 1 neu 2 lyfr gan ddibynnu ar yr opsiwn o'u dewis. Disgwylir iddyn nhw ddelio â chwestiynau'n ymwneud â digwyddiadau, perthnasoedd, personoliaethau'r prif gymeriadau, safbwyntiau a chredoau unigol, cymhelliad am weithredoedd personol, ac ati. **Ni** ddisgwylir iddyn nhw ateb cwestiynau ar theori lenyddol nac ar y cefndir athronyddol ehangach.

C Rhanbarthau Sbaen

Bydd ymgeiswyr yn astudio 1 neu 2 ranbarth gan ddibynnu ar yr opsiwn o'u dewis. Disgwylir iddynt ddelio â chwestiynau'n ymwneud â daearyddiaeth, yr economi, hanes diweddar, cymdeithas, diwylliant, traddodiadau a nodweddion dull o fyw'r rhanbarth. Disgwylir fod ganddynt hefyd olwg eang o le'r rhanbarth yn Sbaen yn gyffredinol.

5 Y CYNLLUN ASESU

Ni chaniateir geiriaduron mewn unrhyw asesiad.

Bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol a safon Uwch ar gael i ymgeiswyr sy'n dilyn y fanyleb hon.

Uwch Gyfrannol

Hanner cyntaf y cwrs safon Uwch yw'r cwrs Uwch Gyfrannol. Bydd yn cyfrannu 50% o gyfanswm y marciau ar gyfer safon Uwch. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r **ddwy uned** ganlynol er mwyn ennill cymhwyster UG.

		Pwysiad o fewn UG	Pwysiad o fewn Safon Uwch
SN1	Llafar	40%	20%
SN2	Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu	60%	30%

SN1: Llafar 15 munud 60 marc

	AA1	AA2	AA3
SN1	50		10

SN2: Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu 3 awr 98 marc

	AA1	AA2	AA3
SN2	8	60	30

Uwch

Mae dwy ran i'r fanyleb Safon Uwch: Rhan 1 (UG) a Rhan 2 (U2).

Gellir sefyll Rhan 1 (Uwch Gyfrannol) ar wahân a'i hychwanegu at U2 mewn sesiwn arholiad bellach er mwyn sicrhau cymhwyster Uwch, neu fel arall, gellir sefyll yr arholiadau UG ac U2 gyda'i gilydd yn yr un sesiwn.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r unedau UG a amlinellwyd uchod ynghyd â dwy uned bellach er mwyn sicrhau cymhwyster Safon Uwch mewn Sbaeneg. Bydd yr unedau U2 yn cyfrannu 50% o gyfanswm y marciau ar gyfer safon Uwch.

		Pwysiad o fewn U2	Pwysiad o fewn Safon Uwch
SN3*	Llafar	40%	20%
SN4*	Gwrando, darllen ac ysgrifennu	60%	30%

* yn cynnwys asesiad synoptig

SN3: Llafar 15-20 munud 60 marc

	AA1	AA2	AA3
SN3	30	20	10

SN4: Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu 3 awr 98 marc

	AA1	AA2	AA3
SN4	16	52	30

Dosbarthiad yr AA ym mhob papur**SN1 Llafar**

	AA1	AA2	AA3	
	50		10	60

SN2 Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu

	AA1	AA2	AA3	
Gwrando ac ymateb	8		5	13
Darllen ac Ymateb		24	10	34
Cyfieithu		16		16
Traethawd		20	15	35

SN3 Llafar

	AA1	AA2	AA3	
	30	20	10	60

SN4 Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu

	AA1	AA2	AA3	
Gwrando ac ymateb	6			6
Darllen ac Ymateb		22		22
Cyfieithu		15	10	25
Traethawd yr Astudiaethau Cyfeiriedig	10	15	20	45

Asesiad Synoptig

Bydd asesiad synoptig, sy'n profi dealltwriaeth ymgeiswyr o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau'r pwnc a'u dealltwriaeth gyfannol o'r pwnc, yn ofynnol ym mhob manyleb Safon Uwch.

Mae cysylltiad agos rhwng gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn Iaith Dramor. Mae asesiad synoptig yn ymwneud â gwybodaeth o'r iaith a sgiliau wrth ei defnyddio sydd wedi cael eu datblygu yng ngwahanol rannau'r cwrs safon Uwch. Bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth a gallu i ddefnyddio sgiliau iaith safon Uwch mewn un neu ragor o dasgau. Bydd asesiad synoptig mewn IDF yn tynnu ar holl amcanion asesu lefel Uwch.

Dyfarnu, Adrodd ac Ail-sefyll

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Uwch Gyfrannol yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TAG Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer gradd yn cael eu cofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig). Bydd canlyniadau uned unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG (gweler y tabl isod). Nodir y cywerthedd gradd â llythyren fach ((a) i (e)) ar y slipiau canlyniad, ond nid ar y tystysgrifau:

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Unedau 1 a 3 (pwysiad 20%)	80	64	56	48	40	32
Unedau 2 a 4 (pwysiad 30 %)	120	96	84	72	60	48
Cymhwyster UG	200	160	140	120	100	80
Cymhwyster U	400	320	280	240	200	160

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol a 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr unedau cyn yr ardystio ar gyfer y cymhwyster, a'r canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes y canlyniadau uned unigol, cyn ardystio'r cymhwyster, ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb ei hun.

6

SGILIAU ALLWEDDOL

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Sbaeneg ar gyfer UG a Safon Uwch, a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefel 3:

- Cyfathrebu
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Sbaeneg' sydd ar gael ar wefan CBAC.

7 DISGRIFIADAU PERFFORMIAD

Cyflwyniad

Mae disgrifiadau perfformiad wedi eu creu ar gyfer pob pwnc TAG. Maent yn disgrifio'r deilliannau dysgu a'r lefelau cyrhaeddiad sy'n debygol o gael eu dangos gan ymgeisydd sy'n cynrychioli perfformiad ar ffiniau A/B a E/U ar gyfer U ac U2.

Yn ymarferol bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos proffiliau anwastad ar draws y cyraeddiadau a restrir, gyda chryfderau mewn rhai meysydd yn gwneud iawn yn y broses ddyfarnu am wendidau neu fylchau mewn manau eraill. Mae disgrifiadau perfformiad yn darlunio disgwyliadau ar ffiniau A/B ac E/U UG ac U yn gyffredinol; nid ydynt wedi eu hysgrifennu ar lefel uned.

Dylid gosod ffiniau Gradd A/B ac E/U gan ddefnyddio barn broffesiynol. Dylai'r farn adlewyrchu ansawdd gwaith ymgeiswyr, wedi ei hysbysu gan y dystiolaeth dechnegol ac ystadegol sydd ar gael. Cynlluniwyd disgrifiadau perfformiad i gynorthwyo arholwyr wrth ymarfer eu barn broffesiynol. Dylid eu dehongli a'u defnyddio yng nghyd-destun manylebau unigol a'u hunedau cysylltiedig. Serch hynny, nid yw disgrifiadau perfformiad wedi eu cynllunio i ddiffinio cynnwys manylebau ac unedau.

Cyflawnir y gofyniad i bob manyleb UG ac U asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig ymgeiswyr trwy un neu ragor o'r amcanion asesu.

Mae'r disgrifiadau perfformiad wedi eu cynhyrchu gan yr awdurdodau rheoleiddiol mewn cydweithrediad â'r cyrff dyfarnu.

disgrifiadau perfformiad UG ar gyfer ieithoedd tramor modern

	Amcan asesu 1	Amcan asesu 2	Amcan asesu 3
Amcanion asesu	Deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith lafar. ¹	Deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith ysgrifenedig. ²	Dangos gwybodaeth o'r gramadeg a'r gystrawen a ragnodwyd yn y fanyleb a'u defnyddio'n gywir.
	¹ Efallai na fydd deall ac ymateb ar lafar i iaith lafar yn gymwys i fanylebau rhai ieithoedd, yn amodol ar gytundeb â'r awdurdodau rheoleiddio.	² Efallai na fydd deall ac ymateb ar lafar i iaith ysgrifenedig yn gymwys i fanylebau rhai ieithoedd, yn amodol ar gytundeb â'r awdurdodau rheoleiddio.	
disgrifiadau perfformiad ar y ffin A/B	Yng nghyd-destun defnyddiau sy'n briodol i fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol: <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos dealltwriaeth glir o iaith lafar b) yn deall y prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau c) yn gallu cyfleu ystyr gyda rhai hepgoriadau'n unig ch) yn gallu datblygu eu syniadau, a mynegi safbwyntiau, gyda pheth cyfiawnhad priodol d) yn ymateb yn barod ac yn rhugl ac yn cymryd y blaen (<i>siarad</i>) dd) yn ynganu ac yn defnyddio goslef yn gywir (<i>siarad</i>) e) yn gallu delio ag elfennau annisgwyl (<i>siarad</i>) f) yn dangos y gallu i drefnu a strwythuro eu hymateb yn rhesymegol (<i>ysgrifennu</i>) ff) yn cynnig gwybodaeth berthnasol sy'n rhoi sylw i ofynion y dasg (<i>ysgrifennu</i>). 	Yng nghyd-destun defnyddiau sy'n briodol i fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol: <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos dealltwriaeth glir o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig b) yn deall y prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau. c) yn gallu cyfleu ystyr gyda rhai bylchau'n unig ch) yn gallu datblygu eu syniadau, a mynegi safbwyntiau, gyda pheth cyfiawnhad priodol d) yn ymateb yn barod ac yn rhugl ac yn cymryd y blaen (<i>siarad</i>) dd) yn ynganu ac yn defnyddio goslef yn gywir (<i>siarad</i>) e) yn dangos y gallu i drefnu a strwythuro eu hymateb yn rhesymegol (<i>ysgrifennu</i>) f) yn cynnig gwybodaeth berthnasol sy'n rhoi sylw i ofynion y dasg (<i>ysgrifennu</i>). 	Yng nghyd-destun gramadeg a chystrawen a restrwyd yn y fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol: <ul style="list-style-type: none"> a) yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o eirfa a strwythurau sy'n briodol i'r dasg. b) Mae'r defnydd o ramadeg, cystrawen a morffoleg yn gyffredinol gywir. c) yn gallu trafod iaith yn briodol pan fo angen.

<p>disgrifiadau perfformiad ar y ffin E/U</p>	<p>Yng nghyd-destun defnyddiau sy'n briodol i'r fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos peth dealltwriaeth o iaith lafar, sylfaenol, sy'n aml yn ddiriaethol, tra'n aml yn profi anawsterau gydag iaith fwy cymhleth a haniaethol b) yn deall rhai o'r prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau sylfaenol c) yn meddu ar allu cyfyngedig i gyfleu ystyr lle mae hyn yn briodol i'r dasg ch) yn gallu cyfleu peth gwybodaeth sylfaenol wrth drosglwyddo ystyr d) efallai'n betrus yn eu hymateb ac mae eu rhuglder wedi ei gyfyngu'n bennaf i ddeunydd a ddysgwyd o flaen llaw . dd) Efallai bod eu perfformiad yn yr iaith darged wedi ei ddylanwadu gan eu hiaith gyntaf (<i>siarad</i>) e) efallai'n cael peth anhawster wrth gyfathrebu gwybodaeth ffeithiol, adrodd digwyddiadau a mynegi safbwyntiau wrth ymateb i'r dasg a osodwyd , ac nid ydynt bob amser yn rhoi sylw i ofynion y dasg (<i>ysgrifennu</i>) f) yn dangos peth gallu i strwythuro a threfnu eu hymateb lle y bo'n briodol. 	<p>Yng nghyd-destun defnyddiau sy'n briodol i'r fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos peth dealltwriaeth o destunau ysgrifenedig syml, ond yn cael anawsterau gydag iaith fwy cymhleth a haniaethol b) yn deall rhai o'r prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau cyfyngedig c) yn meddu ar allu cyfyngedig i gyfleu ystyr lle mae hyn yn briodol i'r dasg ch) yn gallu cyfleu peth gwybodaeth sylfaenol wrth drosglwyddo ystyr d) efallai'n betrus yn eu hymateb ac mae eu rhuglder wedi ei gyfyngu'n bennaf i ddeunydd a ddysgwyd o flaen llaw . Efallai bod eu perfformiad iaith darged wedi ei ddylanwadu gan eu hiaith gyntaf (<i>siarad</i>) dd) efallai'n cael peth anhawster wrth gyfathrebu gwybodaeth ffeithiol, yn adrodd digwyddiadau ac yn mynegi safbwyntiau sylfaenol wrth ymateb i'r dasg a osodwyd , ac nid ydynt bob amser yn rhoi sylw i ofynion y dasg (<i>ysgrifennu</i>) e) yn dangos peth gallu i strwythuro a threfnu eu hymateb lle y bo'n briodol. 	<p>Yng nghyd-destun gramadeg a chystrawen a restrwyd yn y fanyleb UG, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> g) yn defnyddio amrediad cyfyngedig o eirfa a strwythurau h) yn meddu ar iaith a nodweddir gan wallau aml o ran gramadeg, cystrawen a morffoleg i) yn gallu cael eu dylanwadu gan yr iaith gyntaf. ch) yn dangos gallu cyfyngedig iawn i drafod iaith pan fo angen.
---	---	---	---

disgrifiadau perfformiad U2 ar gyfer ieithoedd tramor modern

	Amcan asesu 1	Amcan asesu 2	Amcan asesu 3
Amcanion asesu	deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith lafar. ¹	Deall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith ysgrifenedig. ²	Dangos gwybodaeth o'r gramadeg a'r gystrawen a ragnodwyd yn y fanyleb a'u defnyddio'n gywir.
	¹ Efallai na fydd deall ac ymateb ar lafar i iaith lafar yn gymwys i fanylebau rhai ieithoedd, yn amodol ar gytundeb â'r awdurdodau rheoleiddio.	² Efallai na fydd deall ac ymateb ar lafar i iaith ysgrifenedig yn gymwys i fanylebau rhai ieithoedd, yn amodol ar gytundeb â'r awdurdodau rheoleiddio.	
disgrifiadau perfformiad ar y ffin A/B	<p>Yng nghyd-destun deunyddiau sy'n briodol i fanyleb Safon Uwch, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <p>a) yn dangos dealltwriaeth glir o iaith lafar</p> <p>b) yn deall y prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau</p> <p>c) yn dangos gallu i gyfleu ystyr</p> <p>ch) yn gallu trosglwyddo ystyr gyda hepgoriadau bychan yn unig</p> <p>d) yn gallu datblygu eu syniadau, a mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau'n effeithiol</p> <p>dd) yn ymateb yn barod ac yn rhugl ac yn cymryd y blaen (<i>siarad</i>)</p> <p>e) yn ynganu ac yn defnyddio goslef yn gywir (<i>siarad</i>)</p> <p>f) yn gallu delio'n briodol ag elfennau annisgwyl (<i>siarad</i>)</p> <p>ff) yn dangos y gallu i drefnu a strwythuro eu hymateb yn rhesymegol (<i>ysgrifennu</i>)</p> <p>g) yn cynnig gwybodaeth berthnasol sy'n rhoi sylw i ofnion y dasg (<i>ysgrifennu</i>).</p>	<p>Yng nghyd-destun deunyddiau sy'n briodol i'r fanyleb Safon Uwch, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <p>a) yn dangos dealltwriaeth glir o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig</p> <p>b) yn deall y prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau, ac yn gallu canfod ystyr</p> <p>c) yn dangos gallu i gyfleu ystyr</p> <p>ch) yn gallu trosglwyddo ystyr gyda hepgoriadau bychan yn unig</p> <p>d) yn gallu datblygu eu syniadau, a mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau'n effeithiol</p> <p>dd) yn ymateb yn barod ac yn rhugl ac yn cymryd y blaen (<i>siarad</i>)</p> <p>e) yn ynganu ac yn defnyddio goslef yn gywir ar y cyfan (<i>siarad</i>)</p> <p>f) yn gallu delio'n briodol ag elfennau annisgwyl (<i>siarad</i>)</p> <p>ff) yn dangos y gallu i drefnu a strwythuro eu hymateb yn gydlynol (<i>ysgrifennu</i>).</p>	<p>Yng nghyd-destun deunyddiau sy'n briodol i'r fanyleb Safon Uwch mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <p>a) yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o eirfa a strwythurau cymhleth fel y bo'n briodol.</p> <p>b) yn defnyddio gramadeg, cystrawen a morffoleg yn bennaf yn gywir.</p> <p>c) yn gallu trafod iaith yn gywir ac yn briodol pan fo angen.</p>

<p>disgrifiadau perfformiad ar y ffin E/U</p>	<p>Yng nghyd-destun deunyddiau sy'n briodol i'r fanyleb Safon Uwch, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos peth dealltwriaeth o iaith lafar sydd fel arfer yn ddiriaethol, ond gallant gael anhawster gydag iaith fwy cymhleth a haniaethol b) yn deall rhai o'r prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau sylfaenol c) yn dangos gallu cyfyngedig i ganfod ystyr, lle y bo'n briodol, i'r dasg ch) yn gallu cyfleu'r wybodaeth sylfaenol wrth drosglwyddo ystyr d) efallai'n betrus yn eu hymateb ac mae eu rhuglder wedi'i gyfyngu'n bennaf i ddeunydd a ddysgwyd o flaen llaw . Efallai bod eu perfformiad yn yr iaith darged wedi ei ddylanwadu gan eu hiaith gyntaf (<i>siarad</i>) dd) efallai'n cael peth anhawster wrth gyfathrebu gwybodaeth ffeithiol, digwyddiadau naratif ac wrth fynegi safbwyntiau sylfaenol wrth ymateb i'r dasg a osodwyd , ac nid ydynt bob amser yn rhoi sylw i ofynion y dasg yn briodol (<i>ysgrifennu</i>) e) yn dangos peth gallu o ran strwythur ac yn trefnu eu hymateb, lle y bo'n briodol. 	<p>Yng nghyd-destun deunyddiau sy'n briodol i'r fanyleb Safon Uwch, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) yn dangos peth dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig, fel arfer yn syml, ond gallant gael anhawster gydag iaith fwy cymhleth a haniaethol b) yn deall rhai o'r prif bwyntiau a manylion, gan gynnwys safbwyntiau sylfaenol c) yn dangos gallu cyfyngedig i ganfod ystyr, lle y bo'n briodol, i'r dasg ch) yn gallu cyfleu'r wybodaeth sylfaenol wrth drosglwyddo ystyr d) efallai'n betrus yn eu hymateb ac mae eu rhuglder wedi ei gyfyngu'n bennaf i ddeunydd a ddysgwyd o flaen llaw . Efallai bod eu perfformiad yn yr iaith darged wedi ei ddylanwadu gan eu hiaith gyntaf (<i>siarad</i>) dd) efallai'n cael peth anhawster wrth gyfathrebu gwybodaeth ffeithiol, digwyddiadau naratif ac wrth fynegi safbwyntiau sylfaenol wrth ymateb i'r dasg a osodwyd ac nid ydynt bob amser yn rhoi sylw i ofynion y dasg yn briodol e) yn dangos peth gallu o ran strwythur ac yn trefnu eu hymateb, lle y bo'n briodol. 	<p>Yng nghyd-destun gramadeg a chystrawen a restrir yn y fanyleb Safon Uwch, mae ymgeiswyr yn nodweddiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) yn defnyddio amrediad cyfyngedig o eirfa a strwythurau. Mae'r defnydd o ramadeg, cystrawen a morffoleg yn cynnwys sawl gwall ac efallai eu bod wedi eu dylanwadu gan eu hiaith gyntaf. b) yn dangos gallu cyfyngedig iawn i drafod iaith yn gywir pan fo angen.
---	---	--	---

ATODIAD 1 GRAMADEG A CHYSTRAWEN

Disgwylir y bydd ymgeiswyr UG a safon Uwch wedi astudio'r system ramadegol a strwythurau'r iaith yn ystod y cwrs. Yn yr arholiad disgwylir iddynt ddefnyddio gramadeg yn weithredol ac yn gywir ac i'r strwythurau fod yn briodol i'r tasgau a osodir, wedi eu tynnu o'r rhestrau canlynol. Mae'r rhestrau wedi eu rhannu'n UG a safon Uwch. Mae'r enghreifftiau mewn llythrennau italig yn ddynodol, ac nid yn benodol. Ar gyfer strwythurau a nodir ag (G), gwybodaeth oddefol yn unig sydd ei hangen

Sbaeneg: Safon UG

Enwau: cenedl

ffurfiau unigol a lluosog

Y fannod: pendant ac amhendant (gan gynnwys *lo* ac ansoddair)

Ansoddeiriau: cytundeb

safle

talfyrru (apocopation) (*buen, mal*)

gradd gymharol ac eithaf

dangosol (*este, ese, aquel*)

amhenodol (*alguno, cualquiera, otro*)

mediannol (ffurfiau hir a byr) (*mi, mío*)

gofynnol (*cuánto, qué*)

perthynol (*cuyo*)

ebychol (*qué*)

Adferfau: gradd gymharol ac eithaf

gofynnol (*cómo, cuándo, dónde*)

Meintiolion/

cryfhawyr (*muy, bastante, poco, mucho*)

Rhagenwau: goddrych

gwrthrych: uniongyrchol ac anuniongyrchol

safle a threfn

atblygol

perthynol (*que, quien, el que, el cual*)

anghysylltiol/pwysleisiol
dangosol (*éste, ése, aquél, esto, eso, aquello*)
amhenodol (*algo, alguien*)
mediannol (*el mío, la mía*)
gofynnol (*cuál, qué, quién*)
Berfau: ffurfiau rheolaidd ac afreolaidd berfau, gan gynnwys berfau atblygol
moddau cyfarch (*tu, usted*)
berfau â'r bôn yn newid
berfau amhersonol
berfau wedi'u dilyn gan ferfenw (gyda neu heb arddodiad)
berfenw perffaith
ffurfiau negyddol
ffurfiau gofynnol
cystrawennau atblygol (*se vende, se nos dice que*)
defnyddiau o *sêr* ac *estar*
amserau: presennol
gorffennol
amherffaith
dyfodol
amodol
perffaith
dyfodol perffaith (G)
amodol perffaith (G)
gorberffaith
y stad oddefol: amserau presennol a gorffennol
amserau eraill (G)
amserau parhaus
gorchmynnol
berfenw (gerund)
rhangymeriad gorffennol
modd dibynnol: presennol
perffaith
amherffaith
gorberffaith
defnyddiau o'r dibynnol: gorchmynion cwrtais
gorchmynion negyddol
ar ôl berfau dymuno, gorchymyn, gofyn, emosiwn
i fynegi pwrpas (*para que*)
i fynegi posibilrwydd/amhosibilrwydd
ar ôl cysyllteiriau amser (*cuando lleguemos*)
mewn brawddegau amodol ar ôl *si*
pob defnydd cyffredin arall (G)
Arddodiaid: personol a
defnyddiau o *por* a *para*
Cysyllteiriau: cyffredin, gan gynnwys *y, pero, o, porque, como, cuando*
Rhif, swm ac amser: cystrawennau gyda *hace a desde hace*

Sbaeneg: safon Uwch

Yr holl ramadeg a chystrawennau a restrir am safon UG, a:

Berfau: amser dyfodol perffaith
amser amodol perffaith
stad oddefol: yr holl amserau
modd dibynnol: pob defnydd cyffredin

ATODIAD 2

A. Byd Llenyddiaeth

Federico García Lorca: *La casa de Bernarda Alba*
Mariano Azuela: *Los de abajo*
Luis de Castresana: *El otro árbol de Guernica*
Fernando Fernán Gómez: *Las bicicletas son para el verano*
Ramón Sender: *Réquiem por un campesino español*
Ernesto Sábato: *El túnel*
Gabriel García Márquez: *El coronel no tiene quien le escriba*
Laura Esquivel: *Como agua para chocolate.*

B. Byd y Sinema

Pedro Almodóvar, *Mujeres al borde de un ataque de nervios*
Carlos Saura, *¡Ay, Carmela!*
Manuel Gutiérrez Aragón, *La mitad del cielo*
Antonio Mercero, *Planta 4ª*
Helena Taberna, *Yoyes*
Montxo Armendáriz, *Secretos del corazón*
Guillermo del Toro, *El Laberinto del fauno*
Joshua Marston, *María llena eres de gracia*
Fernando Trueba, *La Belle Époque*
Emilio Martínez - Lázaro, *Las trece rosas*
Acheró Mañas, *El Bola*

C. Rhanbarthau Sbaen

Andalucía
Asturias y Cantabria
Castilla-La Mancha
Cataluña
La Comunidad de Madrid
La Comunidad Valenciana
Galicia
El País Vasco y Navarra